



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Cyfiawnder cynhwysol: system sydd wedi'i chreu ar gyfer pawb

—

Adroddiad tystiolaeth dros dro

Gwrandawriadau fideo a'u heffaith
ar gyfranogiad effeithiol

Cynnwys

Rhagair	2
Amdano'r ymchwiliad hwn	4
Sut gasglom y dystiolaeth	5
Ffocws yr ymchwiliad hwn.....	5
Defnydd o dechnoleg cyswllt-fideo	7
Ein tystiolaeth	8
Effaith ar nodi namau	8
Effaith ar gyfranogiad	9
Addasiadau gofynnol.....	10
Gwerthuso effaith technoleg fideo	12
Argymhellion	13
Cysylltau	14

Rhagair

Yn ddiweddar daeth ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn bwrw golwg ar fynediad i gyfiawnder i bobl anabl yn y system cyfiawnder troseddol i ben.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder dwf sylweddol yn y defnydd o wrandawiadau ffôn a fideo wrth ymateb i'r pandemig COVID-19, i leihau'r nifer o wrandawiadau wyneb i wyneb ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd. Mae hyn yn cynnwys twf yn y llysoedd troseddol, ond nid i dreialon rheithgor.

Wrth ymateb i hyn rydym yn cyhoeddi canfyddiadau dros dro ein hymchwiliad i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau a lliniaru risgiau i bobl anabl.

Mater i'r barnwr, ynadon neu banel yw'r penderfyniad sut y cynhelir gwrandawriad, a byddant yn pennu'r ffordd orau i gynnal buddiannau cyfiawnder. Anogodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) ddefnyddwyr llys i ddweud wrth y llys neu dribiwnlys os oes unrhyw amgylchiadau a allai effeithio neu rwystro ar eu gallu i gyfranogi'n effeithiol mewn gwrandawriad sain neu fideo ac maent wedi cadarnhau y gwneir addasiadau rhesymol yn eu [canllaw a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2020](#).

Cyhoeddir y canllaw hwn wrth gydnabod nad yw gwrandawiadau ffôn a fideo yn addas i bawb. Mae'n datgan y gellir gwneud addasiadau rhesymol, ond ni rhydd gwybodaeth benodol am ba addasiadau sydd yn bosibl. Yn ogystal bydd yn dibynnu ar ddiffynyddion yn nodi eu namau. Canfu ein hymchwiliad fod hyn yn ei hanfod yn codi problemau ac yn ei sgil bydd yn debygol na chaiff anghenion ychwanegol llawer o bobl eu nodi.

Ymgymeron â'n hymchwiliad oherwydd gofid eang y gall diffynyddion anabl neu'r rheini a gyhuddir wynebu rhwystrau sylweddol i gyfiawnder mewn achosion troseddol. Canfuom y gall gwrandawiadau fideo rwystro'n sylweddol rhag i bobl anabl â rhai namau allu cyfathrebu a deall yn effeithiol, namau megis anabledd dysgu, anhwylderau sbectrwm awtistiaeth a chyflyrau iechyd meddwl. Caiff y rheini â'r cyflyrau hyn eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol.

Gwnaethom hefyd nodi nifer o rwystrau eraill, gan gynnwys pryderon dros brosesau i nodi, cofnodi a rhannu gwybodaeth am namau, ac argaeledd addasiadau i sicrhau bod pobl anabl sydd wedi'u cyhuddo o droseddu yn deall ac yn cyfranogi'n effeithiol mewn achosion cyfreithiol yn eu herbyn.

Cydnabyddwn fod asiantaethau cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd yn wynebu heriau digyffelyb a'r pryder pennaf yw diogelu iechyd cyhoeddus. Eto fyth, rydym yn pryderu dros effaith twf y gwrandawiadau ffôn a fideo ar gyfiawnder i rai pobl anabl.

Ni ddylai'r argynfwng iechyd presennol hefyd ddod yn argyfwng cyfiawnder. Cyhoeddwn ein canfyddiadau i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau yn y cyfnod eithriadol hwn a gwnawn argymhellion i liniaru'r risgiau a nodwn.

Amdano'r ymchwiliad hwn

Edrychodd yr ymchwiliad ar ba mor effeithiol y nodir y sawl yn y system cyfiawnder troseddol sydd â nam gwybyddol, cyflwr iechyd meddwl a/neu gyflwr niwro-amrywiol. Yna archwiliodd a oedd addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i sicrhau y gall y sawl a nodwyd gyfranogi'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar effaith gwrandawiaadau fideo ar gyfranogiad i ddiffnyddion.

Tynnodd yr ymchwiliad ar ystod eang o ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys cyfweiliadau gyda'r farnwriaeth, gweithwyr proffesiynol llinell flaen a diffnyddion.

Mae cyfathrebu effeithiol wrth wraidd y broses gyfreithiol gyfan: gan sicrhau bod pawb sydd yn gysylltiedig yn deall ac yn cael eu deall. Fel arall caiff y broses gyfreithiol ei hamharu arni neu'i direilio.

Llyfr Triniaeth Gyfartal y Fainc 2018, Canllaw i Farnwyr ac Ynadon yng Nghymru a Lloegr

Cynhaliom yr ymchwiliad hwn o dan adran 16 Deddf Cydraddoldeb 2006. Mae ymchwiliadau'n fodd i ni ganfod mwy am fater cydraddoldeb, amrywiaeth neu hawliau dynol. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau gallwn wneud argymhellion er newid a gwelliant ym maes polisi, ymarfer neu ddeddfwriaeth. Archwiliom a oedd:

- yr hawl i dreial teg (Erthygl 6 y Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop) yn cael ei wireddu.
- addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, yn ôl gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.
- awdurdodau cyhoeddus yn ystyried eu polisiâu a'u gwasanaethau ac yn gwneud penderfyniadau yn unol â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED).

Yn y degawd diwethaf, roedd buddsoddi'n sylweddol mewn systemau digidol yn rhan allweddol y rhaglen moderneiddio llysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o ddolenni fideo, yn bennaf, i wrandawiaadau remánd a chyn treial.

Sut gasglom y dystiolaeth

Tynna'r adroddiad ymchwil ar ystod eang o ffynonellau tystiolaeth.

- Ymgwymerodd ein staff â 100 o gyfweiliadau ansoddol manwl gyda gweithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol yng Nghymru (7), Lloegr 69), a'r Alban (24).
- Cysylltom yn uniongyrchol ag ystod o adrannau llywodraeth a chyrff hyd fraich.
- Comisiynom y prosiectau ymchwil canlynol:
 - 39 o gyfweiliadau ansoddol gyda chyn diffynyddion yng Nghymru a Lloegr
 - Arolygon ar-lein gyda 200 o weithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol a 46 o ddiffynyddion, pobl a gyhuddwyd a chefnogwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
 - Ymgyrch fapio o faint moderneiddio a digideiddio mewn llysoedd ar draws y systemau cyfiawnder troseddol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
 - Ymchwil wrth ddesg i ddarparu enghreifftiau o sut mae amryw o systemau cyfreithiol y tu allan i Brydain wedi ymdrechu i wella cyfranogiad effeithiol gan ddiffynyddion â namau gwybyddol, cyflyrau iechyd meddwl a/neu gyflyrau niwro-amrywiol.

Tynna'r ymchwiliad ar ymchwil cyhoeddedig, ystadegau swyddogol a dogfennau polisi. Darparodd y Grŵp Cyfeirio Allanol (ERG), gydag aelodau'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, sefydliadau pobl anabl a sefydliad eiriolaeth a hawliau dynol arbenigedd a chyngor gwerthfawr i'r ymchwiliad.

Ffocws yr ymchwiliad hwn

Canolbwyntiodd ein hymchwiliad ar y sawl â nam gwybyddol, cyflwr iechyd meddwl a/neu gyflwr niwro-amrywiol. Gallai hyn effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys:

- colli cof neu anhawster cadw gwybodaeth
- bod â hyd sylw byr
- bod yn anfodlon i ddweud eu dweud
- bod â gorbryder enbyd, ac
- anallu i reoli mympwy neu feddyliau.

Gellir gwaethygu'r effeithiau hyn pan fydd unigolyn yn niffynnydd mewn achos troseddol. Prin yw'r data gan lywodraeth am gyffredinolrwydd y grŵp hwn o fewn y system cyfiawnder troseddol, ond awgryma'r dystiolaeth ei fod yn arwyddocaol¹.

Mae'n egwyddor cyfraith gyffredin hir sefydlog bod rhaid i ddiffynyddion allu deall a chymryd rhan mewn achosion troseddol y maent yn rhan ohonynt. Mae hwn hefyd yn hawl o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae angen i ddiffynyddion ddeall yr hyn y maent yn cael ei gyhuddo ohono, y dystiolaeth sydd ohoni, a gallu rhoi eu cyfrif a chyfarwyddiadau'n effeithiol i'w tîm cyfreithiol. Sef 'cyfranogiad effeithiol'.

¹ Er enghraifft, amcangyfrifir bod gan 40% o'r bobl a gedwir yn nalfa'r heddlu broblem iechyd meddwl. NICE (2017), [Mental health of adults in contact with the criminal justice system](#)

Defnydd o dechnoleg cyswllt-fideo

Fel rhan o'n hymchwiliad gwnaethom fwrw golwg ar faint y dechnoleg dolen fideo ar draws y systemau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Canfuom fod gan y rhan fwyaf o lysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr ryw ffurf o dechnoleg dolen fideo (207 allan o 234 o fannau cyfarfod yng Ngwanwyn 2019).

Mewn sampl o lysoedd a gysylltwyd â nhw, adroddodd y rhan fwyaf ohonynt, (31 allan o 37) y gallent gysylltu â gorsaf yr heddlu lleol drwy gyswllt fideo.

Cysylltom â 104 o garchardai (allan o 114²) yn Lloegr a'r tri charchar yng Nghymru. Roedd gan bob un sefydliad, a gysylltom â nhw, y dechnoleg ac roedd ei ddefnydd yn eang.

Dengys ein dadansoddiad o Lysoedd y Goron â rhestri ar gael ar sampl o ddyddiadau³ bod gan y rhan fwyaf ohonynt (62 allan o 72) o leiaf un diffynnydd wedi'i rhestru i ymddangos drwy fideo.

Cadarnhaodd ein cyfweiliadau gyda gweithwyr proffesiynol cyfiawnder troseddol y defnyddir fideo yn aml ar gyfer gwrandawiadau remánd a dros dro (rhng carchardai a llysoedd).⁴ Cânt eu defnyddio'n rheolaidd hefyd ar gyfer ymgynghoriadau rhng carcharwyr ar remánd a'u cyfreithwyr amddiffyn neu eiriolwyr.

² Tŷ'r Cyffredin. 'The prison estate' paour briffio'r Tŷ Cyffredin. Tach 2019.

³ Dadansoddwyd rhestri'r llys ar 10 Ebrill, 17 Ebrill, 24 Ebrill a 1 Mai 2019.

⁴ Gwrandawiadau dros dro yw gwrandawiadau sydd yn digwydd mewn unrhyw gam achos cyfreithiol, heblaw am y treial ei hunan. Gwnaeth y rhan fwyaf o dystiolaeth ein hymchwiliad ganolbwyntio ar wrandawiadau adolygu remand, cysylltau o garchar i lys, lle mai'r diffynnydd eisoes wedi'i remandio yn y ddalfa. Ni chawsom ond ychydig dystiolaeth ar wrandawiadau remand yr heddlu, cysylltau o swyddfeydd cadw'r heddlu i lys yr ynadon ar gyfer yr ymddangosiadau cyntaf.

Ein tystiolaeth

Effaith ar nodi namau

Canfuom fod cyfleoedd i nodi namau a rhoi addasiadau ar waith yn cael eu colli neu'u lleihau pan fydd diffynnydd yn ymddangos yn y llys drwy fideo yn hytrach nag mewn person.

I ddiffynyddion y mae eu cyfarfod cyntaf drwy fideo, roedd gweithwyr proffesiynol o ystod o sectorau o'r farn bod hyn yn tanseilio'n sylweddol gallu eiriolwyr i nodi namau.

Awgrymwyd fod yr 'elfen ddynol' ar goll yn y rhyngweithrediadau hyn a'i bod yn anodd meithrin ymddiriedaeth a pherthynas. Tanlinellwyd y gellir yn hawdd camddeall pobl ac ymddygiadau drwy dechnoleg o bell.

Cafodd ei nodi gan nifer o gyfweledigion bod y rhwystrau hyn yn cael eu dwysáu gan y cyfnodau byr sydd ar gael i ymgynghoriadau drwy fideo. Cyn gwrandawriadau, y cyfnod amser arferol ar gyfer cyfarfod yw prin 15 munud ac yn aml yn llai, hyd yn oed os yw ansawdd y cyswllt yn sâl. Gallai hwn fod y tro cyntaf i gyfreithiwr amddiffyn neu eiriolwr gyfarfod â'u cleient.

Rwy'n meddwl ei fod yn anoddach i'r llys nodi os yw rhywun wedi drysu, neu nad yw'n gallu talu sylw, neu beth bynnag arall yw, achos dim ond ffigwr pitw o bell ydych chi ar sgrin teledu. Ydw, rwy o'r farn nad ydych yn gallu cynrychioli'ch hun yn ddigonol neu i'r llys i nodi'n hawdd nad ydych o angenrheidrwydd yn gallu dilyn yr hyn sydd yn digwydd. Rydych yn llai presennol, yn fy marn i.

Liaison and Diversion, Lloegr

Dim ond rhai byr yw'r cyfnodau a roddir i gyfreithwyr amddiffyn neu gynrychiolwyr, efallai oddeutu pymtheg munud. Os oes bregusrwydd neu angen penodol gan yr unigolyn hwnnw ac maen nhw'n cael anhawster i ddeall cysyniadau, mae ceisio rhoi'r holl wybodaeth iddyn nhw cyn pen chwarter awr a gwneud penderfyniad gwybodus yn anodd iawn. Y ffaith yw nid yw mewn gair yn mynd i weithio.

Erlynydd, Lloegr

Effaith ar gyfranogiad

Canfuom na fu ond asesiadau cyfyng iawn ar yr effaith bosibl ar ddiffynyddion anabl o ddefnyddio fideo ar gyfer gwrandawiadau. O ganlyniad i bryderon ynglŷn â'u defnydd a'u haddasrwydd ar gyfer rhai pobl, dywedodd nifer o gyfweledigion y dylai defnydd o wrandawiadau fideo cael eu hatal nes bod tystiolaeth bellach wedi'i chasglu ynglŷn â'u defnydd ac addasrwydd ar gyfer y diffynyddion hyn.

Cafodd llawer o bryderon eu codi gan gyfweledigion am gysylltau fideo â sain a delweddau o ansawdd gwael. Dywedasant nad oedd cysylltau weithiau yn gweithio, neu gallent fod yn ysbeidiol.

Cafodd ei awgrymu y gall technoleg mewn llysoedd ynadon fod yn enwedig o sâl. Golyga hyn na all gwrandawiadau nag ymgynghoriadau (rhwng diffynyddion a chyfreithwyr amddiffyn neu eiriolwyr) ddigwydd, neu cânt eu gohirio.

Pan gaiff ymgynghoriadau eu hoedi, gall cyfnodau cyfarfod ddod i ben ac efallai na fydd digon o amser gan gyfreithwyr amddiffyn nag eiriolwyr i ailadrodd gwybodaeth neu'i symleiddio ar gyfer diffynyddion anabl, neu i sicrhau bod y diffynyddion wedi deall yr wybodaeth.

Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd â diffynyddion yn cynnwys nifer o unigolion a oedd wedi defnyddio cysylltau fideo. Cafwyd barnau cymysg am y profiad a chafodd y broblem o 'gysylltiad sâl' ei godi gan sawl cyfranogwr.

Cafodd y bwloch rhwng diffynnydd a'i gyfreithiwr a/neu lys ei amlygu hefyd, yn enwedig gan gyfreithwyr amddiffyn ac eiriolwyr. Crybwyllwyd nad oedd gan ddiffynyddion weithiau olwg llawn o'r llys, neu wybod pwy oedd yn bresennol yn yr ystafell yn y safle arall.

Codwyd pryderon am breifatrwydd a breintiau cyfreithiol gan nad oedd cysylltau fideo yn y llysoedd bob amser yn gyfrinachol o ran sain. Cafodd ei nodi hefyd y gall bod wrth eich hunan ar gyfer gwrandawriad fideo, heb gymorth, fod yn anodd i rai pobl.

Er bod rhai effeithiau positif o wrandawiadau fideo wedi'u nodi ar gyfer diffynnyddion, prin yr oeddent wedi'u cysylltu â chyfranogiad. Er enghraifft, nododd gweithwyr proffesiynol a diffynnyddion y gall gwrandawiadau remánd drwy fideo fod yn llai trafferthus ac nid oes rhaid i garcharorion dreulio'r holl ddiwrnod yn teithio mewn amodau anghyfforddus neu aros yn y llys.

Nid oedd yr hyn y baswn yn sôn am lys go iawn oherwydd roeddwn yn eistedd wrth fy hunan mewn ystafell gyda sgrin ond doeddwn i ddim yn gallu clywed beth oedd yn cael ei ddweud...Ces i fe'n anodd iawn a doeddwn i ddim yn gallu cyfrannu ynddo.

Diffynnydd, Cymru/Lloegr

Fy marn gyffredinol yw ei fod yn well iddyn nhw gael eu dwyn i'r llys, am bob math o resymau, achos - ymysg pethau arall - gallan nhw weld y cyfreithiwr, gall y cyfreithiwr gwneud dyfarniad ar y diwrnod, gall y bargyfreithiwr wneud dyfarniad ar y diwrnod, ac wedyn gellir addasu proses y treial mewn ffordd arbennig. Mae ei wneud o bell, cyn belled â chael chyfranogiad a dealltwriaeth y diffynnydd yn y cwestiwn, rwy o'r farn ei fod yn cael ei amharu arno'n fawr.

Barnwriaeth, Lloegr

Addasiadau gofynnol

Gwnaeth y rhan fwyaf o'n tystiolaeth ganolbwyntio ar y rhwystrau y gall gwrandawiadau fideo eu cyflwyno i ddiffynnyddion â nam gwybyddol, cyflwr iechyd meddwl a/neu gyflwr niwro-amrywiol. Canfuom nad oedd gwrandawriad fideo yn addas i lawer o bobl.

Tanlinellodd llawer o gyfweledion nad yw'n briodol fel arfer, oherwydd pryderon am gyfranogiad, i ddiffynnyddion â namau i fynychu gwrandawiadau drwy gyswllt-fideo.

Gwnaethant annog yn gryf y dylai diffynnyddion anabl allu fod yn bresennol mewn gwrandawiadau remand neu dros dro, pan fo'n briodol, drwy gyfrwng addasiad.

Dywedodd gweithwyr proffesiynol yn Lloegr eu bod nhw weithiau yn llwyddiannus wrth ofyn am ymddangosiadau mewn person, yn hytrach na chysylltau-fideo.

Cawsom rywfaint o dystiolaeth a oedd yn awgrymu y gallai gwrandawiadau fideo fod yn addasiad. Er enghraifft, gallai'r sawl a allai brofi lefelau uchel o straen neu orbryder wrth fynychu gwrandawiadau llys yn bersonol ganfod gwrandawriad fideo yn addasiad defnyddiol, ond byddai angen cymorth arnynt yn yr ystafell lle maen nhw.

Dim ond un diffynnydd o'r sampl y gwnaethom eu cyfweld oedd wedi cael y dewis i naill ai fynychu drwy gyswllt-fideo neu fod yno mewn person.

Yn fy marn i, unrhyw un sydd â phroblemau ieithyddol, problemau iechyd meddwl, neu awtistiaeth, ADHD, neu unrhyw anhawster dysgu arall, ni ddylent ymddangos drwy gyswllt- fideo. Mae'n ddigon anodd i weithio gyda rhywun sydd â'r problemau hynny i sicrhau eich bod yn cyflawni'ch swydd yn iawn a gwneud addasiadau rhesymol i'w wneud mewn person, felly dylid ei osgoi ar bob cyfrif, heblaw am y pethau symlaf.

Gweithiwr proffesiynol cyfreithiol, Lloegr

Dw i ddim wedi gweld unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi pan fydd pobl yn ymddangos o orsaf yr heddlu i'r llys ai a yw'r person hwnnw yn addas neu beidio i ddefnyddio cyswllt-fideo. Mwy neu lai, y ffaith yw eu bod wedi'u gorchymyn i wneud pob ymddangosiad am y tro cyntaf drwy gyswllt-fideo a dyna'r hyn a wnawn. Nid oes unrhyw ystyriaeth wirioneddol yn cael ei rhoi i blant neu bobl sydd efallai ag anabledau dysgu neu broblemau iechyd meddwl.

Gweithiwr proffesiynol cyfreithiol, Lloegr

Gwerthuso effaith technoleg fideo

Yn dilyn pryderon a godwyd am yr effaith ar fynediad i gyfiawnder technoleg cyswllt-fideo yn y llysoedd, ym [mis Tachwedd 2019](#) argymhellodd y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder dros Senedd y DU y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gomisiynu ymchwil annibynnol ar wrandawiadau fideo a chysylltau fideo gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddeilliannau cyfiawnder. Argymhellodd y dylid gorffen yr ymchwil hwn cyn i HMCTS wneud defnydd helaethach o dechnoleg fideo mewn llysoedd a thribiwnlysoedd.

Wrth ymateb dywedodd y Llywodraeth yn nyddiau cynnar Mawrth 2020 nad yw'n ystyried arafu twf defnyddio fideo tra bod yn cael ei werthuso. Yn fuan wedyn, ar 18 Mawrth 2020, yn dilyn dechrau COVID-19, cadarnhaodd HMCTS ei fod yn cymryd camau ar frys i gynyddu'r gallu i gynnal gwrandawiadau ffôn neu drwy fideo.

Er byddai mesurau o'r fath fel arfer yn cynnwys profi eang, hyfforddiant a'i rowlio allan yn araf, cai'r mesurau hyn eu rowlio allan ar frys yng ngolau'r argyfwng iechyd meddwl digyffelyb presennol. Daw'r cynnydd yn y defnydd o wrandawiadau fideo mewn cyfnod lle nad yw'r dechnoleg fideo ddiweddaraf eto wedi'i osod.

Nid yw effaith gwrandawiadau o bell ar gyfranogiad wedi'i werthuso eto ac felly ni ellir fod yn bendant am y goblygiadau. Byddai recordio rhai gwrandawiadau fideo yn darparu cyfle i werthuso hyn. Gobeithio, bydd cyhoeddi'r dystiolaeth a gasglwyd gan ein hymchwil yn cyfrannu at ddeall yr effaith.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth y DU:

1. Defnyddio'r dystiolaeth sydd yn ymddangos o'r ymarferion peilot ar gyfer cyfiawnder wedi'i alluogi drwy fideo, i gynorthwyo wrth weithredu'r twf cyflym o wrandawiadau o bell.
2. Sicrhau bod gan ddiffnyddion wybodaeth hygyrch i'w hysbysu o'u hawl i godi materion a allai fod ganddynt ynglŷn â chyfranogiad, yn ogystal â mecanweithiau hygyrch i'w galluogi i wneud hynny.
3. Sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol llinell flaen gan gynnwys barnwyr, heddlu a gweithwyr ieched, yn rhoi mwy o ystyriaeth i nodi'r sawl y byddai gwrandawiadau fideo yn anaddas iddynt.
4. Gwasanaethau Cymorth Cyswllt a Dargyfeirio i wneud argymhellion ar addasiadau, gan gynnwys gohirio achosion nad ydynt yn rhai ar frys.
5. Ystyried defnyddio cyfryngwyr cofrestredig i ddarparu cymorth cyfathrebu o bell i ddiffnyddion mewn gwrandawiadau fideo.
6. Ystyried defnyddio system cofnodi sain o wrandawiadau wedi'u hatodi gan rai cofnodion fideo, fel rhan o sylfaen tystiolaeth i werthuso gwrandawiadau o bell

Cysylltau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

[Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.](#)

EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth rhad ac am ddim ac annibynnol.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau agor 09:00 i 19:00 (Llun i Gwener)

10:00 i 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2020 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Ebrill 2020

ISBN: 978-1-84206-827-4



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

equalityhumanrights.com

ISBN 978-1-84206-827-4